



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl:	Swyddog Gweithredol Datblygu'r Cwricwlwm
Cyfeirnod Swydd:	00660
Math o gontract/Oriau/CALI:	Llawn Amser, Parhaol
Graddfa/ Cyflog:	Gradd 7 / £34,520 - £39,993 y flwyddyn
Lleoliad:	Caerfyrddin (Ystyrir lleoli gyda un o ddarparwyr Dysgu Cymraeg ar draws Cymru os yn briodol)
Yn adrodd wrth:	Cyfarwyddwr Strategol

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Yn dilyn proses gystadleuol, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gytundeb i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i ymgymryd â rôl Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Gorffennaf 2022. Mae'r Ganolfan yn gwbl weithredol ers 1 Awst 2016.

Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am gynllunio a monitro pob agwedd ar y maes Dysgu Cymraeg i Oedolion – o'r cwricwlwm ac adnoddau ar gyfer tiwtoriaid, i ymchwil, marchnata, cyfathrebu ac e-ddysgu.

Nod Y Ganolfan yw denu dysgwyr newydd at y Gymraeg a chynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r iaith bob dydd. Bydd yn adeiladu ar gryfderau'r maes, gan godi safonau drwyddi draw.

Corff cenedlaethol, annibynnol yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chanddo fframwaith staffio sydd yn cynnig arweiniad i ddarparwyr ac i fudd-ddeiliad y maes.

Mae Prif Weithredwr a tri Chyfarwyddwr yn ffurfio'r uwch dîm rheoli. Mae strwythur y Ganolfan wedi ei rannu i dair cyfarwyddiaeth, sydd â rolau gweithredol er mwyn arwain adrannau sydd yn gyrru'r weledigaeth genedlaethol, sef:
Cyfarwyddiaeth Marchnata
Cyfarwyddiaeth Strategol
Cyfarwyddiaeth Systemau



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

PRIF DDYLETSWYDDAU

- Rheoli'r gwaith o sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu cyhoeddi yn gywir, yn brydlon ac mewn modd cyffrous a chyfoes;
- Cydlynu cyhoeddi yr adnoddau drwy gydweithio â dylunwyr, golygyddion, cyflenwyr deunyddiau digidol ac argraffwyr;
- Llunio adnoddau dysgu Cymraeg i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd gan fonitro eu defnydd a'u heffeithlonrwydd trwy gynnal cynllun peilot trylwyr. Gall fod angen cyfrannu at adnoddau ar gyfer mwy nag un lefel yn y Cwricwlwm ar yr un pryd a gall y gwaith hwn gynnwys deunyddiau digidol;
- Cymryd rhan mewn cynllun peilota ar gyfer y deunyddiau newydd
- Ymateb i geisiadau i addasu a datblygu'r deunyddiau ar gyfer cynlluniau penodol (e.e Y Gweithle);
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o lunio rhaglenni hyfforddiant proffesiynol parhaus i diwtoriaid, yn enwedig o fewn cyd-destun cyflwyno'r adnoddau newydd;
- Cyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu rhaglen e-ddysgu Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
- Paratoi a chyflwyno cyflwyniadau o safon uchel ar y gwaith o lunio adnoddau i bwyllgorau lefel uchel a rhanddeiliaid perthnasol;
- Creu a chynnal perthynas gyda gweithwyr proffesiynol mewn meysydd cysylltiedig megis dysgu Saesneg, Cymraeg ail iaith a ieithoedd modern er mwyn codi proffil dysgu Cymraeg i Oedolion
- Sicrhau bod gan yr adnoddau newydd a ddarperir ethos gynhwysol;
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gyd-naws ac yn gymesur â'r swydd yn unol â dymuniad y Cyfarwyddwr Strategol.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

- Cyflawni pob cyfrifoldeb perthnasol o ran lechyd a Diogelwch.
- Glynw wrth holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol.
- Meddu ar allu i addasu i newid a gallu i ennill sgiliau newydd a pherthnasol trwy gymryd cyfrifoldeb priodol am eich datblygiad personol a phroffesiynol eich hun.
- Cefnogi a hyrwyddo ymrwymiad y Brifysgol i gynaliadwyedd a chyflawni dyletswyddau mewn modd moesegol a chyfrifol.
- Gweithredu'n unol â'r safonau a ymgorfforir yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.

D.S. Hwn yw'r disgrifiad swydd sy'n gymwys ar hyn o bryd, ond mae'n bosibl y neilltuir dyletswyddau o bryd i'w gilydd sy'n briodol i'r raddfa a'r swydd nad ydynt o natur sylweddol barhaus i effeithio ar raddfa'r swydd.



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

MANYLEB YR UNIGOLYN		
	Hanfodol	Dymunol
Addysg a Chymwysterau	a) Gradd mewn disgyblaeth berthnasol (neu'r profiad proffesiynol cyfwerth)	
Profiad, Galluoedd a Sgiliau	b) Profiad o weithio yn y maes Dysgu Cymraeg c) Profiad o weithio'n effeithiol fel unigolyn, fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill d) Profiad o lunio adnoddau e) Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg – ar lafar ac yn ysgrifenedig f) Y gallu i gyflawni gwaith yn erbyn terfynau amser tynn iawn g) Sgiliau golygu a phrawf ddarllen o safon uchel h) Meddu ar greadigrwydd wrth lunio adnoddau	i) Profiad o deilwra adnoddau, e.e. ar gyfer y gweithle j) Profiad o gydlynw prosiectau k) Profiad o ymdrin â gwaith dylunio, prawf ddarllen a chyhoeddi l) Profiad fel tiwtor Dysgu Cymraeg effeithiol ar draws y prif lefelau yn y fframwaith – Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch m) Sgiliau digidol, gan gynnwys creu/golygu adnoddau digidol n) Meddu ar wybodaeth am arferion gorau ym maes dysgu ieithoedd
Anghenion arall	o) Barod i deithio i fodloni gofynion sy'n ymwneud â'r swydd ac i weithio o amrywiol leoliadau pan fo angen	p) Meddu ar wybodaeth gynhwysfawr am y Gymru gyfoes er mwyn sicrhau yr ymgorfforir yr elfennau hyn mewn adnoddau

Er eich lles eich hun, dylech nodi'n fanwl yn eich cais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir. Fe'ch anogir i ddarparu enghreifftiau perthnasol a phenodol, (o'r gweithle, gwaith gwirfoddol neu waith yn y gymuned, neu unrhyw sefyllfa briodol arall) fel y gall y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer weld yn glir ble mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.